**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Darragh O'Brien T.D.
Y Gweinidog dros Drafnidiaeth

04 Chwefror 2025

Annwyl Y Gweinidog,

**Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi penderfynu cynnal ymchwiliad byr i'r difrod diweddar gan stormydd, a chau Porthladd Caergybi. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar:

- Achosion: y ffactorau sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb y difrod;
- Cyfathrebu: y dull o gyfathrebu yn ystod y storm, ac wedyn, gan gynnwys cyfathrebu â defnyddwyr porthladdoedd, cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gau'r porthladd, a hefyd rhwng llywodraethau.
- Adfer: cyflymder yr ymateb o ran asesu ac atgyweirio'r difrod, gan gynnwys y cymorth a ddarparwyd gan lywodraethau; ac
- Effaith: effaith y cau, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effeithiau.

Gan fod y Pwyllgor yn bwriadu i hwn fod yn ymchwiliad byr â ffocws, ni fyddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu ysgrifennu at bartïon allweddol â diddordeb i gael eu barn.

Byddem yn awyddus i glywed eich barn am yr achosion, y cyfathrebu, yr adferiad a'r effaith. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth arall ar y mater fel y gwelwch chi orau. Byddai darparu'r dystiolaeth hon yn ein helpu i ddeall yr amgylchiadau a arweiniodd at gau'r Porthladd, y

materion a gododd yn sgil ei gau, ac yn caniatáu inni lunio argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn atal y materion a grybwyllwyd rhag digwydd eto.

Diolch ymlaen llaw am eich ymgysylltiad. Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech anfon eich cyfraniad erbyn 19 Chwefror i helpu i lywio ein sesiwn dystiolaeth a drefnwyd ar gyfer 6 Mawrth.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg